# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd Cymru

## Ar gyfer Etholaeth PONTYPRIDD CYNON MERTHYR

1. Bydd etholiad yn cael ei gynnal ar gyfer dewis Aelodau i wasanaethu yn y Senedd dros etholaeth Pontypridd Cynon Merthyr.

2. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau dim hwyrach na **4pm ddydd Iau 9 Ebrill 2026.**

3. Mae modd cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, 10–12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW neu'n electronig trwy e-bostio gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad yma tan ddydd Iau 9 Ebrill 2026.

4. Mae modd cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, 10–12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW rhwng 9am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad yma (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad 'anfon yn electronig' isod.

5. Os bydd digon o ymgeiswyr, bydd etholiad yn cael ei gynnal **ddydd Iau 7 Mai 2026.**

6. Rhaid i geisiadau am bleidleisio cyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos, **ddydd Llun 20 Ebrill 2026.** Mae modd cyflwyno ceisiadau ar-lein: http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

7. Mae modd talu'r blaendal o £500 fesul ymgeisydd unigol neu'r blaendal o £500 ar gyfer yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 ar gyfer pob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar restr y blaid, ag arian cyfreithlon neu drwy drosglwyddiad banc electronig. Mae modd derbyn y manylion BACS gan y Swyddog Canlyniadau yn electronig trwy e-bostio gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk.

8. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu ddiddymiadau mewn perthynas â phleidleisiau drwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (manylion isod) erbyn **5pm ddydd Mercher 21 Ebrill 2026.**

9. Rhaid i geisiadau am bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad yma gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (manylion isod) erbyn **5pm ddydd Mercher 28 Ebrill 2026.**

10. Rhaid i geisiadau am bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad yma gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (manylion isod) erbyn 5pm ddydd Iau 7 Mai 2026.

| **Bwrdeistref Sirol** | **Manylion Cyswllt – Y Swyddog Cofrestru Etholiadol** | **Rhif Ffôn** | **E-bost** |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Gwasanaethau Etholiadol,<br>10–12 Heol Gelliwastad,<br>Pontypridd<br>CF37 2BW | 01443 490100 | gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk |
| Merthyr Tudful | Gwasanaethau Etholiadol,<br>Y Ganolfan Ddinesig,<br>Stryd y Castell,<br>Merthyr Tudful<br>CF47 8AN | 01685 725284 | electoral@merthyr.gov.uk |

Dyddiad: Dydd Mercher 25 Mawrth 2026

**Andrew S Wilkins**
**Swyddog Canlyniadau**

Wedi'i brintio a'i gyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, 10–12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW

**Datganiad cyflwyno electronig**

Rhaid i bapurau enwebu a gaiff eu cyflwyno'n electronig gael eu cyflwyno yn unol â’r trefniadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad yma.

- Rhaid i bapurau enwebu sy'n cael eu cyflwyno'n electronig gael eu hanfon trwy e-bost at enwebiadau@rctcbc.gov.uk. Os caiff papurau enwebu eu hanfon i unrhyw gyfeiriad e-bost arall, fyddan nhw ddim yn cael eu hystyried fel pe baen nhw wedi'u danfon at y Swyddog Canlyniadau, ac felly, fyddan nhw ddim yn cael eu derbyn.
- Rydyn ni'n eich annog i wneud gwiriadau anffurfiol cyn cyflwyno'ch papurau enwebu trwy ddull electronig. Rhaid anfon gwiriadau anffurfiol at enwebiadau@rctcbc.gov.uk gyda'r pennawd 'GWIRIAD ANFFURFIOL'.
- Rydyn ni'n eich annog i gynnwys manylion cyswllt ychwanegol ym mhrif destun eich e-bost fel bod modd i’r Swyddog Canlyniadau/staff y Gwasanaethau Etholiadol gysylltu â chi ynglŷn ag unrhyw ymholiadau.
- Er mwyn sicrhau olion archwilio clir o bapurau enwebu sy'n cael eu cyflwyno, rhaid atodi pob papur enwebu ar gyfer ymgeiswyr o restr plaid i un e-bost.
- Mae modd atodi papurau enwebu wedi'u cwblhau i e-bost mewn dogfen Word neu fel atodiad .pdf yn unig.
- Mae modd llofnodi papurau enwebu yn electronig – er enghraifft ar ffurf llofnod teipiedig.
- Rhaid anfon papurau enwebu ffurfiol drwy e-bost at enwebiadau@rctcbc.gov.uk gyda'r pennawd 'CYFLWYNIAD FFURFIOL'.
- Unwaith y bydd papurau enwebu wedi'u cyflwyno i enwebiadau@rctcbc.gov.uk i'w cyflwyno'n ffurfiol, does dim modd gwneud unrhyw newidiadau iddyn nhw wedi hynny a does dim modd eu dychwelyd.
- Mae modd hefyd anfon hysbysiadau tynnu'n ôl at enwebiadau@rctcbc.gov.uk.
- 30MB yw’r terfyn maint e-bost ar gyfer cyflwyno enwebiadau. Fydd y Swyddog Canlyniadau ddim yn derbyn unrhyw ffeiliau sy'n fwy na hyn.
- Bydd ymateb e-bost awtomataidd yn cael ei anfon gan y Swyddog Canlyniadau ar ôl derbyn yr e-bost. Dydy hyn ddim yn gadarnhad bod eich enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad at ymgeiswyr yn nodi a yw eich enwebiad yn ddilys ai peidio.
- Bydd papurau enwebu a hysbysiadau tynnu'n ôl yn cael eu trin fel eu bod nhw wedi'u dosbarthu pan fydd y dosbarthiad yn cael ei gofnodi ar system gyfrifiadurol y Swyddog Canlyniadau.

Nodwch:
Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau'n derbyn ffurflenni enwebu yn y modd cywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

Pe hoffech chi gael cymorth gyda dosbarthiad electronig yr enwebiadau, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau:

Ffôn: 01443 490100
E-bost: gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk

Dyddiad: Dydd Mercher 25 Mawrth 2026

**Andrew S Wilkins**
**Swyddog Canlyniadau**

Wedi'i brintio a'i gyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, 10–12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW